CRYNODEB

END VIOLENCE AGAINST WOMEN

Mapio'r Bylchau

2

Y loteri cod post
o wasanaethau cymorth
Trais yn Erbyn Menywod
ym Mhrydain

Maddy Coy, Liz Kelly a Jo Foord

Mewn partneriaeth â'r

Comisiwn **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae'r adroddiad newydd hwn yn dangos bod gwasanaethau i fenywod sydd wedi dioddef trais yn cael eu tanariannu'n ddifrifol mewn sawl rhan o'r wlad, neu nad oes gwasanaethau ar gael o gwbl ar eu cyfer. Ni ddylai menywod orfod dioddef y loteri cod post hwn.

Mae'r adroddiad yn galw ar bawb sy'n poeni am y mater hwn i gymryd camau gweithredu, ac mae'n atgoffa aelodau llywodraeth leol a chenedlaethol sydd â'r pŵer i wneud gwahaniaeth: Rhaid ymdrechu ar frys i ddarparu'r arian a'r gefnogaeth er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i bob menyw pryd bynnag y bo'i angen a ble bynnag y maent yn byw.

Gobeithio y bydd yr ystadegau plaen yn yr adroddiad heddiw, a'r storïau ysbrydoledig o bob cwr o'r wlad sy'n symbol o obaith – storïau i'n hatgoffa bod cymorth digonol yn gallu ac wedi gwneud cymaint o wahaniaeth – yn deffro ac ysgogi eraill i gymryd camau gweithredu. Ond, hoffem atgoffa'r cynghorau hynny sydd ymhlith y troseddwyr gwaethaf sy'n parhau i anwybyddu'r angen taer am fwy o wasanaethau i gau'r bylchau - mae'r Comisiwn yn fwy na pharod i ddefnyddio'i bwerau gorfodi.

Trevor Phillips
Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol,
Ionawr 2009

Mae'r Llywodraeth yn gwybod nad yw'r ddarpariaeth o wasanaethau'n ddigonol ym mhob cwr o'r wlad ... rhaid i'n nod sicrhau gwasanaethau priodol a digon ohonynt.

Vera Baird
Y Cyfreithiwr Cyffredinol
Prif Siaradwraig yn 6ed Cynhadledd Trais Domestig Blynyddol Refuge, Llundain, 25 Tachwedd 2008

Mapio'r Bylchau

Loteri Cod Post i fenywod sy'n dioddef trais

Mae tair miliwn o fenywod yn dioddef trais rhywiol, trais domestig, stelcio neu drais arall bob blwyddyn ym Mhrydain. Mae miliynau rhagor yn delio â'r gamdriniaeth a ddioddefwyd yn y gorffennol.

Yn adroddiad cyntaf Mapio'r Bylchau yn 2007, gwelwyd y cofnod cyntaf ym Mhrydain o'r dosbarthiad anghyson o wasanaethau arbenigol i fenywod sy'n dioddef trais, fel Canolfannau a llochesau Argyfwng Trais Rhywiol.

Roedd y darganfyddiadau'n frawychus: nid oedd gan un awdurdod lleol o bob tri unrhyw ddarpariaeth o wasanaethau arbenigol. Dim ond ychydig ohonynt oedd ag amrywiaeth o wasanaethau, a ddiffiniwyd fel naw neu fwy, a oedd yn cwmpasu gwahanol fathau o drais (trais domestig, trais ac ymosodiadau rhywiol, masnachu, llurguniad organau rhywiol merched a phriodasau gorfodol) a mathau o gefnogaeth (llochesau diogel, eiriolaeth, cyngor a hunangymorth).

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a'r Ymgyrch Dileu Trais yn Erbyn Menywod (EVAW) wedi ail-wneud yr ymchwil hwn. Roeddem am weld a oedd y darlun o gefnogaeth wedi newid i'r miliynau o fenywod sy'n gorfod delio â chanlyniadau trais.

Ond unwaith eto, gwelwyd bod dioddefwyr yn wynebu loteri cod post rhanbarthol, ac mewn sawl rhan o Brydain, prin yw'r ddarpariaeth, os yw'n bodoli o gwbl. Mae llawer o fenywod yn dal heb y gefnogaeth leol sydd ei hangen arnynt:

- Mae'r darlun diweddaraf yn dangos bod 1 o bob pedwar awdurdod lleol ym Mhrydain heb unrhyw wasanaethau cefnogi arbenigol o gwbl.

- Mae'r gwasanaethau a gaiff menywod lleiafrifoedd ethnig yn arbennig o wael. O'r 408 o awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, dim ond un o bob deg ohonynt sydd â gwasanaeth arbenigol i fenywod lleiafrifoedd ethnig. Mae'r gwasanaethau hyn yn rhai unigryw ar gyfer menywod sy'n wynebu amgylchiadau penodol iawn, er enghraifft, merched sy'n ffoi rhag priodas orfodol neu lurguniad organau rhywiol, neu fenywod sydd â statws mewnfudo ansicr.

- Glasgow sydd â'r ddarpariaeth orau ym Mhrydain, gyda De-ddwyrain Lloegr ym mhell ar ei hôl hi.

Stori Rosie

Roedd Rosie'n byw mewn tref fach yn Lloegr. Nid oedd erioed wedi bod yn berson hyderus ac roedd yn cael ei rheoli'n llwyr gan ei phartner a oedd yn beirniadu popeth a wnâi. Roedd ef hefyd yn dreisgar.

Cymrodd y Gwasanaethau cymdeithasol ddiddordeb yn y teulu pan godwyd pryderon gan y feithrinfa am eu tri phlentyn bach. Buont yn gweithio gyda'r teulu am ddwy flynedd ac roedden nhw'n gwybod am y trais domestig, ond yn canolbwyntio ar ofal y plant. Mynychodd Rosie ddosbarthiadau rhianta ond ni aeth ei phartner, Ian, o gwbl. Cydweithiodd Rosie a cheisio creu cartref sefydlog ar gyfer ei phlant. Cyflwynodd y gwasanaethau cymdeithasol gais am orchymyn gofal i'r plant, a dim ond pan gafodd Rosie gyfreithiwr yr aethpwyd i'r afael â'r trais a ddioddefodd.

Awgrymodd arbenigwr yn y llys y dylai'r cwpwl wahanu tra bod Ian yn mynychu rhaglen cyflawnwr trosedd a Rosie'n cael cefnogaeth gan brosiect trais arbenigol ar drais domestig. Ond nid oedd un o'r gwasanaethau ar gael yn lleol. Rhoddwyd y plant mewn gofal.

- O'r gwasanaethau newydd a agorwyd yn 2008, roedd 60 y cant ohonynt yn y sector statudol. Mae'r gwasanaethau hyn, sef Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a Llysoedd sy'n arbenigo mewn Trais Domestig yn ymateb i ddigwyddiadau diweddar a adroddwyd i'r system cyfiawnder troseddol. Er bod croeso iddynt, mae'r rhan fwyaf o fenywod yn dal i ddewis peidio â hysbysu'r heddlu amdanynt. Felly, dim ond rhan fach o'r broblem y mae'r ddarpariaeth statudol yn ei datrys.

- Mae lefelau'r ddarpariaeth yn y sector gwirfoddol, sy'n cynnig ystod ehangach o wasanaethau i bob menyw, gan gynnwys menywod sy'n gofyn am gymorth flynyddoedd ar ôl iddynt gael eu treisio, wedi aros yr un fath neu leihau mewn rhai achosion. Nododd arolwg a wnaed o ganolfannau Argyfwng Trais Rhywiol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer yr adroddiad eleni fod bron i chwarter ohonynt (24.1%) yn wynebu cau yn ystod y flwyddyn ariannol hon gyda bron i ddwy ran o bump (39.3%) ohonynt yn pryderu y byddant yn cau yn 2009/10 oherwydd diffyg cyllid.

- Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi galw ar y DU i wneud llawer mwy i gefnogi menywod sy'n dioddef trais. Mae trais yn erbyn menywod yn costio tua 1.2 biliwn y flwyddyn i'r GIG am drin anafiadau corfforol a £176 miliwn am gefnogaeth iechyd meddwl. Ac eto, nid yw'r Adran Iechyd wedi gwneud unrhyw fuddsoddiad sylweddol i wasanaethau arbenigol i fenywod sydd wedi dioddef trais na chwaith wedi cyfeirio at drais yn erbyn menywod wrth lunio cynlluniau strategol i'r Adran.

- Yn yr Alban, mae'r llywodraeth wedi ehangu'r ddarpariaeth trwy Gronfa genedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, ers pum mlynedd a mwy. Ond bellach, mae'r gronfa hon mewn perygl gan fod y cyfrifoldeb am ariannu gwasanaethau ar gyfer trais yn erbyn menywod wedi ei ddatganoli i'r awdurdodau lleol – ac fel y gwelir yn yr adroddiad am eleni, nid yw trefn o'r fath yn gweithio o blaid dioddefwyr trais yng ngweddill Prydain.

Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod ym Mhrydain



Cyflenwyd Data Gwasanaethau a Phrosiectau gan CWASU, Prifysgol Metropolitan Llundain

Defnyddir Ffiniau Digidol Awdurdodau Lleol o dan drwydded gan UK Borders, un o wasanaethau EDINA

Mae'r argyfwng ariannu sy'n wynebu gwasanaethau lleol i fenywod yn golygu nid yn unig na fydd bylchau cyfredol yn debygol o gael eu llenwi, ond y bydd yna hefyd ddirywiad sylweddol yn y gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion menywod. Bydd menywod sy'n dioddef trais yn eu cael eu hunain yn fwyfwy unig. Ni ellir amgyffred pa effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar eu hiechyd a'u lles.

Pam fod angen gwasanaethau arbenigol ar fenywod?

Rhedir gwasanaethau arbenigol gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol gan fwyaf ac maent yn cynnwys: Canolfannau Argyfwng Trais Rhywiol, llochesau, prosiectau allgymorth trais domestig, gwasanaethau i fenywod lleiafrifoedd ethnig, cefnogaeth i fenywod a fasnachwyd a menywod ym myd puteindra.

Ceir rhai gwasanaethau pwysig yn y sector statudol, megis Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a chlinigau sy'n ymdrin â llurguniad organau rhywiol merched. Er bod y rhain yn darparu gwasanaethau gwerthfawr, maent yn fwy prin ac efallai bod ganddynt gyfyngiadau ar yr ystod o wasanaethau y gallant eu darparu. Mae gan wasanaethau statudol generig – fel y gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, a'r heddlu – gylchoedd gwaith penodol iawn ac nid oes ganddyn nhw'r arbenigedd i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fenywod.

Caiff y rhan fwyaf o fenywod eu cam-drin gan rywun y maent yn eu hadnabod, a hynny droeon gydag agweddau rhywiol. Mae pob un o'r agweddau hyn o drais yn erbyn menywod yn eu hatal rhag dweud wrth eraill, heb sôn am wneud adroddiad swyddogol, ac mae'r rhwystrau hyn yn waeth i fenywod o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid, menywod anabl a menywod hŷn. Mae gwasanaethau arbenigol yn y sector gwirfoddol wedi darparu lleoedd diogel i fenywod lle maent wedi gallu:

- goresgyn cywilydd a stigma;
- siarad am eu profiadau heb ofn;

Cefnogaeth i fenywod yn Glasgow

Mae menywod sy'n cael eu treisio'n rhywiol neu eu cam-drin yn Glasgow yn cael llawer mwy o gefnogaeth – gan sefydliadau gwirfoddol a statudol - nag yn unrhyw le arall ym Mhrydain. Mae yna amrywiaeth o wasanaethau i'r 250,000 o fenywod sy'n byw yn y ddinas, sy'n golygu y gall menywod a fasnachwyd gael lle diogel, gall goroeswyr camdriniaeth rywiol yn ystod plentyndod gael rhywun sy'n deall eu hanghenion a gall dioddefwyr trais domestig gael cymorth trwy broses y llysoedd os byddant yn dewis dweud wrth yr heddlu. Fodd bynnag, cydnabyddir, o gofio'r holl achosion o drais yn erbyn menywod, fod angen ehangu'r ddarpariaeth o hyd.

Mewn cyferbyniad, nid oes gan lawer o drefi a dinasoedd eraill ym Mhrydain unrhyw gefnogaeth arbenigol i fenywod. Mae hyn yn wir oherwydd bod Llywodraeth yr Alban, Cyngor Dinas Glasgow a phartneriaid yn y ddinas wedi blaenoriaethu diogelwch a lles menywod yn eu hymrwymiad i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod. Mae buddsoddi mewn gwasanaethau cefnogi menywod yn talu ar ei ganfed gan helpu menywod i oresgyn effeithiau camdriniaeth ac ailadeiladu eu bywydau. Mae'n fodel y gallai dinasoedd eraill ledled Prydain ei efelychu.

Stori Ruby

“Rwyf yng nghanol fy 20au ac mae gennyf fab ifanc. Un noson, pan oeddwn i allan gyda ffrindiau a theulu mewn gwesty yn Newquay, Cernyw, fe ymosododd dyn arnaf. Ymosododd arnaf yn rhywiol a phan geisiais ymladd yn ôl fe drawodd fi i’r llawr gan sathru fy wyneb a’m corff yn dreisgar gan achosi anafiadau difrifol. Bu’n rhaid i mi gael llawdriniaeth adluniol o ganlyniad i’m hanafiadau.

“Ni wnaeth yr heddlu drin yr achos fel trosedd rhywiol difrifol ac felly ni chefais gynnig heddwas arbenigol nac archwiliad meddygol fforensig ac mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi dod â’r achos i ben yn ddiweddar oherwydd prinder tystiolaeth. Ni roddodd yr heddlu unrhyw wybodaeth i mi am wasanaethau trais rhywiol arbenigol, ond yn ffodus cefais hyd i Ganolfan Trais a Cham-drin Rhywiol Menywod Cernyw (WRASAC) a gynigiodd sesiynau cynghori hirdymor i mi ar gyfer trawma, cyngor ac eiriolaeth yn ogystal â chymorth i wneud cwyn i’r heddlu am y ffordd y cefais fy nhrin ganddynt.

“Roedd WRASAC yn hollol ffantastig o’r diwrnod cyntaf un; cefais strategaethau i ymdopi â’r pyliau panig ac rwy’n parhau i gael cefnogaeth hyd heddiw. Does gen i ddim syniad sut byddwn i wedi ymdopi hebddynt – roedden nhw’n gymorth parod mewn cyfyngder a ddaeth ar yr amser iawn.”

Mae WRASAC wedi bod yn rhoi cymorth i fenywod sy’n dioddef trais rhywiol ers 1996. Maen nhw wedi ennill sawl gwobr am eu gwaith, gan gynnwys Gwobr Seren Aur y Swyddfa Gartref am Brosiect Enghreifftiol. Serch hynny, mae cyllid yn frwydr barhaus a does dim arian craidd ar eu cyfer. Maen nhw’n dibynnu ar grantiau sy’n ariannu prosiectau tymor byr.

- cael eu credu a’u parchu;
- cael cyfle i archwilio eu hopsiynau;
- cael cyfiawnder;
- gwella ar ôl rhai o effeithiau’r trais a symud ymlaen â’u bywydau.

Mae’n hanfodol bod menywod yn gallu gofyn am gymorth mewn lleoedd diogel lle maent yn gwybod nad ydynt yn gysylltiedig â’r heddlu, mewnfudo neu’r gwasanaethau cymdeithasol. Mae llawer o’r gwasanaethau arbenigol hyn wedi bod yn cefnogi menywod i oresgyn y trais y maent wedi ei ddioddef ers dros dri degawd.

Maent yn gymorth hanfodol mewn cyfyngder ac yn gallu cynnwys gwasanaeth gwrando, gwybodaeth a chyngor, eiriolaeth, cynghori, lloches, diogelwch, hunangymorth, a chefnogaeth i fod yn ymgyrchwyr eu hunain. Yn fwy pwysig na dim, ac yn wahanol i lawer o’r gwasanaethau statudol, mae sefydliadau’r sector gwirfoddol yn cefnogi menywod sydd wedi dioddef trais yn y gorffennol, yn ogystal â dioddefwyr trais cyfredol.

Cynllun: www.louismackaydesign.co.uk

Stori Sarjit

Pan ddihangodd Sarjit o Affganistan yn 17 mlwydd oed, cyrhaeddodd Brydain ar ei phen ei hun. Cafodd groeso gan deulu a wnaeth ei cham-drin yn gorfforol.

Llwyddodd i ddianc a gwnaeth gais am loches, ond gwrthodwyd hi. Daeth yn gyfeillgar â dyn yn y deml a symudodd i mewn gydag ef, ond pan ddaeth yn feichiog, trodd y dyn yn dreisgar a'i gadael hi.

Yn ffodus, cafodd help *Southall Black Sisters* a ddaeth o hyd i gyfreithwyr newydd iddi er mwyn ei galluogi i wneud cais newydd am loches a'i helpu i gael tŷ a chefnogaeth gan y gwasanaeth cynnal cenedlaethol i geiswyr lloches.

Mae sefydliadau fel *Southall Black Sisters* yn gymorth parod i fenywod fel Sarjit sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol pan fyddant yn dioddef trais – rhwystrau sy'n ymwneud yn aml â rheolau mewnfudo, yn ogystal ag iaith neu ddiwylliant. Ac eto, mae gan lai nag un o bob deg awdurdod lleol wasanaethau o'r fath, ac mae'r ychydig sydd ar gael yn aml yn gorfod brwydro i gadw'r drysau ar agor am nad ydynt yn cael eu hariannu'n ddigonol.

Argymhellion a Chasgliadau

Mae'n amlwg o'r ymchwil fod yna argyfwng o ran ariannu a darparu gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi menywod sydd wedi dioddef trais.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r ymgyrch i Ddileu Trais yn Erbyn Menywod yn galw ar lywodraethau cenedlaethol a lleol i gymryd camau gweithredu brys i sicrhau bod pob menyw yn gallu cael yr ystod lawn o gefnogaeth sydd ei hangen arni, lle bynnag a phryd bynnag y bo:

- Rhaid i lywodraethau cenedlaethol Prydain weithredu strategaeth ariannu genedlaethol, a hynny ar unwaith, er mwyn diogelu'r gwasanaethau arbenigol cyfredol sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a chynorthwyo i lenwi'r bylchau.

- Rhaid i awdurdodau lleol a sefydliadau cyhoeddus eraill sicrhau bod cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau annibynnol, arbenigol i fenywod yn unig er mwyn cefnogi'r menywod hynny sy'n dioddef trais.

Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y pwer i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn yr awdurdodau lleol hynny sy'n torri eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol trwy fethu â blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cefnogi menywod yn ddigonol.

Newidiwyd rhai enwau yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

End Violence Against Women
17-25 New Inn Yard
London EC2A 3EA
Ffôn +44 (0) 207 033 1559
Ffacs: +44 (0) 207 033 1796
www.endviolenceagainstwomen.org.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
3 More London
Riverside, Tooley Street
London SE1 2RG
Ffôn +44 (0) 20 3117 0235
Ffacs: +44 (0) 207 407 7557
www.equalityhumanrights.com